

# Pontio ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol

## Pontio rhwng Cyfnodau Allweddol neu Symud dosbarth

Gall pob math o bontio fod yn anodd i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn yr Ysgol Gynradd gall symud o un Cyfnod Allweddol i'r nesaf olygu newidiadau i:

- ddosbarthiadau – eu cynllun, amgylchedd, maint, nifer y disgyblion
- yr amserlen
- yr athro/athrawes
- y disgwyliadau o safbwynt y gwaith sydd angen ei gyflawni
- lefel y gwaith sy'n cael ei gyflwyno
- nifer y staff cynorthwyol

Gall fod yn fanteisiol i'r plentyn dreulio ychydig o amser yn y dosbarth newydd, er mwyn cyfarfod â'r athro/athrawes ymlaen llaw a chael gweld amserlen y dydd. Efallai y bydd angen amserlen weledol ar rai plant cyn pontio. Gall fod yn ddefnyddiol treulio ychydig o amser yn dangos i'r plentyn lle mae'r cyfarpar yn cael ei gadw, lle mae cotiau a bagiau'n cael eu storio a sicrhau eu bod yn deall unrhyw reolau dosbarth a systemau gwobrwyo. Bydd llawer o blant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn elwa o eistedd yn agos i flaen y dosbarth er mwyn iddynt allu clywed a gweld yr athro/athrawes yn glir.

Os yw'r newid Cyfnod Allweddol yn ymwneud â symud i ran arall o adeilad yr ysgol a/neu i ardal chwarae wahanol, yna bydd yn ddefnyddiol rhoi cyfle i'r plentyn ymweld neu fynd ar neges i'r rhan honno o'r adeilad er mwyn iddo/iddi ddod i'w adnabod. Bydd y plentyn hefyd yn elwa o dreulio amser yn yr ardal chwarae newydd am yr un rheswm. Efallai y bydd angen clustnodi man arbennig o fewn yr ardal chwarae fel man tawel i fynd iddo os fydd y plentyn yn teimlo dan bwysau.

Gall rhieni fod yn falch o gyfle i weld amgylchedd newydd eu plentyn y tu allan i oriau ysgol neu ar adeg dawel er mwyn gallu dweud wrth yr ysgol os ydynt yn rhagweld unrhyw anawsterau ac o bosib, cynnig awgrymiadau er mwyn helpu i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Dylai'r staff rannu gwybodaeth am y plentyn neu broffiliau disgybl â'i gilydd cyn y pontio er mwyn trosglwyddo gwybodaeth am unrhyw strategaethau sy'n gweithio, neu beidio. Bydd yr athro/athrawes a'r staff cynorthwyo newydd yn elwa'n fawr o wybod beth all gynhyrfu a thawelu'r disgybl a sut i'w cefnogi yn y modd mwyaf effeithiol.

O gwmpas y cyfnod pontio gall y disgybl elwa o gael person enwebedig i fynd ato/ati i rannu unrhyw bryderon. Aelod o'r staff neu ffrind cyfoed ddylai hwn/hon fod.

## **Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd**

Gall y trosglwyddiad i'r ysgol uwchradd fod yn gyfnod hynod o bryderus i ddisgyblion a'u rhieni. Mae'n siŵr y bydd yr ysgol yn fwy o faint; bydd y disgyblion yn cael eu dysgu gan lawer o athrawon yn ystod y dydd ac yn symud rhwng ddosbarthiadau. Mae'r hon yn drefn wahanol iawn i'r ysgol gynradd. Mae ymweliadau pontio â'r ysgol newydd yn hanfodol. Dylai disgyblion sydd ag ADY ymweld â'r ysgol gyda'u cyfoedion ond gall hwn fod yn ddiwrnod prysur iawn gyda llawer o wybodaeth i'w brosesu. Yn ddelfrydol, gellid trefnu sawl ymweliad cyn hynny er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion gasglu gwybodaeth a dod i adnabod yr ysgol ar adeg dawel. Gallai hyd yn oed un neu ddau ymweliad roi cyfle i'r disgybl deimlo ei fod/bod yn rheoli'r sefyllfa'n well ac yn llai pryderus wrth ymweld gyda'u cyfoedion ar y diwrnod pontio.

Mae adnodd ar y wefan hon y gall disgyblion weithio drwyddi a mynd adref gyda nhw, er mwyn iddynt deimlo'n fwy hyderus a chysurus. Mae'n eu hannog i chwilio am fap o'r ysgol, i dynnu ffotograffau, dod o hyd i'r ffreutur/llyfrgell/swyddfa a dod i adnabod y prif aelodau o staff. Gellir annog disgyblion i edrych ar wefan yr ysgol gartref neu yn yr ysgol a dylid rhoi unrhyw wybodaeth a/neu brosbectws iddynt ymlaen llaw. Mae hyn yr un mor bwysig o safbwynt y rhieni â'r disgyblion eu hunain.

Gall fod yn fanteisiol i ddisgyblion a rhieni gyfarfod Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol a/neu diwtor er mwyn tawelu eu meddwl o safbwynt unrhyw ddarpariaeth benodol sydd ar gael neu a fydd yn cael ei gynnig i'w plentyn. Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth fod yn addas ar gyfer yr unigolyn. Yn syml iawn, gall fod yn fater o wneud yn siŵr fod y disgybl yn gwybod ble i fynd os ydynt yn poeni am unrhyw beth, neu, gall fod yn ymwneud ag agweddau a strategaethau mwy cymhleth, megis sesiynau cefnogi wedi'u hamserlennu mewn canolfan gefnogi a grwpiau iaith cymdeithasol. Bydd hyn yn amrywio o un disgybl i'r llall a bydd gan bob ysgol systemau ychydig bach yn wahanol.

Gall casglu gwybodaeth oddi wrth yr ysgol gynradd a chan rieni fod yn werthfawr iawn ac o gymorth gyda'r cynllunio ymlaen llaw er mwyn osgoi pob math o anawsterau. Mae rhieni'n gallu darparu cyngor ynglŷn â sut y bydd eu plentyn yn: ymateb i sefyllfaoedd penodol, beth allai achosi ymddygiad heriol neu hunan-niwedio a beth all leihau'r pwysau.

## **Yr Hanner Tymor Cyntaf yn yr Ysgol Uwchradd**

Os yn bosibl, mae'n ddefnyddiol rhoi ddisgyblion sydd ag ADY mewn grwpiau tiwtor gyda'u ffrindiau o'r ysgol gynradd. Dyma leihau un elfen o straen ar ddisgybl sy'n gorfod ymdopi â chymaint o newid. Bydd cael wyneb cyfarwydd yn yr ystafell o help mawr.

Gall Proffil Un Tudalen fod yn hynod ddefnyddiol. Mae'r rhain yn daflenni gwybodaeth ynglŷn â'r disgybl a'r ffordd orau o'i gefnogi. Yn ddelfrydol, caiff y rhain eu postio ar rwydwaith yr ysgol er mwyn galluogi staff yr ysgol gyfan i gael yr wybodaeth. Neu gall yr wybodaeth bwysig sy'n ymwneud â chefnogi'r disgybl gael ei leihau i faint nod llyfr neu gerdyn post a'i ddefnyddio fel copi caled y gellir cyfeirio ato. Wrth gwrs, dim ond os yw'r proffiliau yma'n hylaw, yn cael eu defnyddio a'r cyfarwyddiadau'n cael eu dilyn yn gyson gan staff y mae'r rhain o wir ddefnydd.

Yn ystod yr wythnos neu fwy gyntaf mae'n bosibl y gallai'r disgybl elwa o adael ychydig o

funudau'n gynharach amser egwyl a chinio er mwyn osgoi'r rhuthr, ond mae llawer o ddisgyblion yn awchu i fod yn 'un o'r criw' ac felly'n awyddus i osgoi cael eu trin yn wahanol. Dylid dangos i'r disgyblion ble ac at bwy y dylen nhw droi os oes ganddynt unrhyw broblemau neu eu bod yn cael anhawster setlo. Dylai targedau Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) y tymor cyntaf gynnwys un ar gyfer pontio llwyddiannus: enwi man diogel/person y gallant gysylltu ag ef/hi yn ôl yr angen, person i fonitro'r trosglwyddiad ac unrhyw strategaethau a allai helpu'r person ifanc.

Gall cofnodi a monitro sut mae'r disgybl yn dygymod â sgiliau cymdeithasol a bywyd, eu hymddygiad cyffredinol a sut y maent yn ymwneud â'u cyfoedion a staff hefyd fod yn ddefnyddiol. Gall hyn danlinellu unrhyw achos gofid neu ddatblygiad. Mae'n rhoi darlun o sut mae'r disgybl yn dod yn ei flaen ac yn gallu helpu wrth osod targedau.

## **Rhestr Wirio ar gyfer Staff Addysgol**

**Canllaw yn unig yw'r rhestr hon – mae'n bosib na fydd pob agwedd yn berthnasol. Yn yr un modd, gall fod gan athrawon/ysgolion systemau neu strategaethau gwahanol neu ychwanegol ar waith.**

### **Cyn i'r disgybl(ion) ddechrau mewn darpariaeth newydd**

- Gwybodaeth am ddisgybl newydd (gan yr ysgol, y disgybl ac asiantaethau allanol) wedi'i gasglu a'i rannu.
- Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP)/gwybodaeth gefnogol wedi'i rhannu gydag unigolion perthnasol.
- Cynlluniau Gofal Iechyd/Ymddygiad/Cefnogaeth yn eu lle.
- Cyfathrebu â rhieni.
- Ymweliadau pontio.
- Ffurflenni caniatâd wedi'u llofnodi gan rieni yn ôl yr angen (teithiau ac ymweliadau, cwricwla amgen, gwrthod hawl, diet/alergedd, ffotograffiaeth).
- Manylion cyswllt rhieni/brys.

### **Yn Ystod Ymweliadau Pontio**

Y bwriad os yn bosib yw helpu disgyblion i deimlo'n dawel eu meddwl ynglŷn â'u trosglwyddiad i'r Ysgol Uwchradd, er mwyn lleddfu ofnau a'u helpu i deimlo'n ddiogel.

- Ymweliadau pontio er mwyn i ddisgybl(ion) ymgyfarwyddo â manau allweddol.
- Llyfryn anwytho, i'w lenwi yn yr ysgol gynradd, yn ystod ymweliadau pontio â'r Ysgol Uwchradd ac ymwneud â'r rhieni os dymunir.
- Sefydlu gallu/potensial academaidd y disgybl.
- Cyswllt agos â staff yr Ysgol Gynradd, pennu beth all y disgybl ymdopi ag ef/ei wir allbwn.
- Defnyddio graddfa gyfathrebu debyg i'r un a ddangosir yn y llyfr. Mae hon yn rhoi asesiad sylfaenol o sgiliau cyfathrebu ac yn fodd o fonitro datblygiad yn y meysydd yma.
- Creu Proffil Un Tudalen neu Basbort Personol ar gyfer y disgybl ar y cyd â staff yr Ysgol Gynradd a rhieni. Gweler y llyfr am esiampl o Gynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP) a thaflen casglu gwybodaeth. Sicrhau ei fod yn cael ei ddsbarthu i'r staff perthnasol ac ar rwydwaith yr ysgol er hwylustod i bawb.

- Casglu gwybodaeth o'r Ysgol Gynradd er mwyn helpu i lunio cynlluniau ymddygiad/cefnogi neu asesiadau risg. Dylai cynlluniau gofal iechyd fod ar gael – cysyllter â'r nyrs ysgol.
- Anfon gartref a chasglu llythyron i rieni'n ymwneud â hawliau ffotograffau, llythyron trosfwaol ar gyfer ymweliadau/tripiau, caniatâd Trin Cadarnhaol. Hefyd, anfon copïau o asesiadau risg gartref i'w hystyried cyn eu harwyddo.
- Os y bydd disgyblion yn gwneud unrhyw weithgareddau y tu allan i safle'r ysgol neu gysiau cwricwla amgen, dylid sicrhau llythyron caniatâd/asesiad risg ar ddechrau'r tymor neu ar ddiwedd tymor yr Haf rhag ofn gorfod gohirio'r gweithgareddau.
- Cyfathrebu â'r ysgol Gynradd a gosod targedau'r Cynllun Addysg Unigol (CAU). Dylai un o'r rhain gynnwys pontio llwyddiannus, gan nodi sut y bydd hwn yn gweithio o safbwynt y disgybl. Gweler y llyfr am esiamplau o Gynlluniau Addysg Unigol a'r taflenni targedau ar gyfer Cynlluniau Addysg Unigol Prif ffrwd.

## Rhieni

- Mae perthynas agored ac agos â rhieni'n hanfodol.
- Enwau a/ffotograffau o staff dysgu cynorthwyol a'u meysydd pwnc i'w hanfon gartref.
- Annog disgyblion i edrych ar wefan yr ysgol.
- Rhestrau cyfarpar/amserlenni i'w hanfon adref.
- Llythyron am dripiâu neu lythyron gwybodaeth i'w e-bostio neu eu hanfon gartref i rieni er mwyn sicrhau eu bod wedi'u gweld.
- Cytuno ar waith cartref gyda rhieni ar sail pob disgybl yn unigol – efallai y bydd angen cyfyngu ar waith cartref neu pennu amser ar gyfer gwaith cartref yn yr ysgol ar gyfer rhai disgyblion.
- Trafod Cynlluniau Addysg Personol, Asesiadau Risg, Cynlluniau Iechyd a Chynlluniau Trin gyda rhieni. Mae'n hanfodol eu bod yn ymwybodol/yn ymwneud â'r rhain.

## Y Tymor Cyntaf

- Sefydlu cysylltiadau da gyda rhieni drwy alwadau ffôn neu gyswllt drwy'r dyddiadur. Mae hyn yn tawelu meddwl rhieni ac yn arbed llawer o alwadau ffôn/llythyron pryderus neu gamddealltwriaeth.
- Sicrhau bod lefelau addas o gefnogaeth yn eu lle.
- Monitro disgyblion yn ofalus yn ystod y tymor cyntaf: presenoldeb ac ymddygiad. Datrys pryderon yn syth, gan gofio y gall disgyblion fod yn ei chael hi'n anodd ac yn creu sefyllfa heriol gartref tra'n ymddangos i fod yn berffaith iawn yn yr ysgol.
- Sicrhau fod gan y disgybl ffrind neu ei fod yn hyderus o safbwynt adnabod ei ffordd o gwmpas yr ysgol a bod map ac amserlen ar gael yn ei ddyddiadur/bag.
- Sicrhau fod y disgybl yn gwybod ble i fynd os yw'n gofidio/wedi ypsetio ac nad yw wedi'i ynysu amser egwyl/cinio.
- Efallai y bydd angen hysbysu grŵp cyfoed, grŵp tiwtor ayb am y disgybl a'i gyflwr/chyflwr. Dylid cytuno hyn ymlaen llaw gyda'r disgybl a'r rhieni/ gofalwyr.
- Rhannu gwybodaeth ADY gyda'r staff addysgol.
- Ystyried yr amserlen. Oes angen amserlenni amser tawel neu gefnogaeth ychwanegol?

- Sicrhau bod cynlluniau Gofal Iechyd, cynlluniau Ymddygiad, Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac Aseidiadau Risg yn eu lle, yn ôl y galw.
- Penderfynu ar sut i gefnogi disgyblion i ddangos gofid, angen am lonydd neu gymorth mewn modd addas a diffwdan.
- Bod yn gyson o safbwynt cynlluniau eistedd gan ystyried materion synhwyraidd/atgasedd o newid.
- Rhoi amserlenni i'r disgyblion sy'n nodi'r amserau'n glir, yn cynnwys amser egwyl ac enwau llawn athrawon. Defnyddio lliwiau penodol ar gyfer pynciau, gall fod angen rhifau ystafelloedd gyda disgrifiadau.
- Labelu ystafelloedd ac adrannau'n glir.
- Rhoi tocynnau cinio cynnar neu goridor i'r disgyblion er mwyn osgoi tyrfaoedd/cyfnodau prysur a allai achosi problemau synhwyraidd.
- Cynnwys gweithgareddau ysgogol, clybiau, symbyliadau neu wobrau yn ôl y galw.
- Mae pryder yn effeithio ar lawer o ddisgybl ifanc sydd ag ADY. Rhaid bod yn glir ynglŷn â'r gefnogaeth.

### **Wynebu heriau: Pan fydd pethau'n mynd o chwith**

- Siarad â'r disgybl a'r rhieni i gael trosolwg/unrhyw wybodaeth ychwanegol.
- Ydy pob aelod o staff yn ymwybodol o anghenion yr unigolyn ac yn gyson ei agwedd?
- Sicrhau nad oes ffactorau synhwyraidd nac amgylcheddol yn achosi problem i'r disgybl.
- Sicrhau fod gan y disgybl yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn teimlo bod y sefyllfa dan eu rheolaeth
- Mae ymddygiad heriol yn digwydd pan na fydd disgybl yn gallu mynegi ei deimladau. Sicrhau fod ganddynt gyfle i siarad â rhywun y maent yn ymddiried ynddo/ynddi.
- Holi'r disgybl a'r rhai sy'n ei adnabod ynglŷn â sut mae'n ymdopi gydag amser rhydd (egwyl/cinio) a beth maent yn ei wneud ar yr adegau hynny? Ydy bwllian yn ofid?
- Ystyried pa strategaethau, agweddau a/neu adnoddau y gellid eu defnyddio i helpu'r sefyllfa. Dyma'r prif amcanion:
  - Lleihau pryder
  - Hybu'r ymdeimlad o reolaeth
  - Sicrhau bod pob angen yn cael ei gefnogi.